# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2016

Amser: 09.30 - 09.42

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
| --- | --- |
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC<br>Mark Isherwood AC<br>Eluned Parrott AC |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc) |

## 1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Mark Isherwood oedd yn y Gadair ar gyfer y cyfarfod hwn yn unol â darpariaeth y Pwyllgor am Gadeirydd dros dro a enwebwyd.

1.2 Rhoddodd y Cadeirydd Dros Dro wybod i'r Pwyllgor fod Mick Antoniw wedi ymddiswyddo fel aelod o'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr ac, oherwydd nad oedd bellach yn aelod, nid oedd darpariaeth i ddirprwy o'r Blaid Lafur fod yn bresennol ar ei ran yn y cyfarfod.

1.3 Cafwyd ymddiheuriadau gan y Comisiynydd Safonau.

## 2 Ystyried adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

2.1 Bu Aelodau'n trafod adroddiad (SOC(4)-01-16 Papur 1) cyn cytuno arno, yn dilyn y drafodaeth ar adroddiad y Comisiynydd Safonau yn ystod y cyfarfod blaenorol.

## 3 Ystyried adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i)

3.1 Bu Aelodau'n trafod adroddiad (SOC(4)-01-16 Papur 2) cyn cytuno arno, yn dilyn y drafodaeth ar adroddiad y Comisiynydd Safonau yn ystod y cyfarfod blaenorol.